



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl The Nash**

**Cartref Preswyl The Nash  
10-12  
Churton Road  
Y Rhyl  
LL18 3NB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

23/08/2023

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Cartref Preswyl The Nash

|   |  |
|---|--|
| Y math o ofal a ddarperir   | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion  |
| Darparwr Cofrestredig   | NASH CORPORATE SERVICES LIMITED  |
| Lleoedd cofrestredig  | 31   |
| Iaith y gwasanaeth  | Y ddwy   |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru                           | <a href="#">23 Ionawr 2023</a>   |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn ymddangos yn hapus â'r gofal y maent yn ei gael ac yn ymateb yn dda i'r staff gofal. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda, ac maent yn eu trin mewn ffordd garedig a pharchus. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gyson ag anghenion unigol y bobl. Mae asesiadau risg priodol ar waith. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr. Maent yn cael sesiynau goruchwylio a hyfforddiant rheolaidd. Mae'r tîm rheoli wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar; mae wedi sicrhau bod systemau ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn cael ei lywodraethu a'i oruchwylio'n effeithiol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn gwirio ansawdd y gwasanaeth.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch gan bob aelod o'r staff gofal. Mae'r bobl yn teimlo'n hyderus ac yn gyfforddus wrth siarad â'r staff gofal a'r tîm rheoli. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau unigol. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol rhwng y bobl a'r staff gofal yn ystod yr arolygiad. Mae'r tîm rheoli yn cefnogi'r staff gofal sy'n eu galluogi i gyflawni eu rolau gofalu yn llwyddiannus. Mae'r amgylchedd yn cynnig digon o le ac wedi'i drefnu er mwyn i'r bobl allu cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Mae'r bobl mor iach ac egnïol ag y gallant fod. Gwelsom fod gan y bobl eu trefn eu hunain a'u bod yn cael ymwelwyr. Gwelsom y staff gofal a'r tîm rheoli yn trefnu apwyntiadau iechyd ac yn gohebu â gweithwyr proffesiynol amrywiol. Gwnaethom siarad ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref yn ystod ein hymweliad. Mae'r tîm rheoli yn effeithiol wrth sicrhau bod y bobl yn cael y gofal priodol ar yr adeg briodol. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu er mwyn i'r bobl allu cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Caiff pawb eu hannog i feithrin a chynnal cydberthnasau cymdeithasol yn y cartref. Nododd y bobl fod aelodau o'u teulu a'u ffrindiau yn ymweld yn rheolaidd ac y gallant fynd allan i'r gymuned am y diwrnod gyda'u teulu.

Mae systemau ar waith i leihau risgiau i'r bobl. Caiff apwyntiadau iechyd ac atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eu gwneud mewn modd amserol. Mae'r staff gofal yn effeithlon wrth sicrhau y caiff y wybodaeth am ofal y bobl a'r asesiadau risg eu diweddarau a'u bod yn gywir. Mae'r staff gofal yn cael eu hyfforddi'n briodol, ac maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am rywun. Fel rhan o drefniadau llywodraethu'r gwasanaeth, mae'r tîm rheoli yn goruchwyllo'r broses o ystyried risgiau a'r amgylchedd. Caiff yr amgylchedd ei fonitro bob dydd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beryglon amlwg.

Mae amgylchedd y cartref yn helpu pobl sy'n byw gyda dementia i gyflawni safon dda o lesiant. Mae'r ystafelloedd wedi'u personoli â dodrefn sy'n addas i'w hanghenion. Mae'r cartref yn ddiogel, gyda bysellbad â chod ar ddrws y fynedfa, ac mae'n rhaid i bob ymwelydd gofrestru wrth gyrraedd. Mae'r tîm rheoli wedi buddsoddi yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth drwy wasanaeth sy'n ystyried eu dymuniadau a'u dyheadau personol. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd a'u newid os/pan fydd anghenion gofal yn newid. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys asesiadau risg priodol sy'n cofnodi sut y caiff y risgiau a nodwyd i ddiogelwch y bobl eu rheoli. Dywedodd y teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu yn y gwasanaeth, y gallant ymweld yn aml a'u bod yn fodlon ar y gofal a ddarperir i'w perthynas. Gwelsom ffolder canmoliaethau a oedd yn cynnwys sawl cerdyn diolch â negeseuon i'r staff.

Ymgynghorir â'r bobl ac maent yn cael cymorth gan asiantaethau ac arbenigwyr perthnasol pan fo angen. Dywedodd y rheolwr fod ganddo gydberthynas dda â'r nyrsys ardal sy'n darparu cyngor arbenigol ychwanegol. Caiff apwyntiadau ysbyty eu trefnu a'u mynychu'n briodol. Mae'r rheolwr yn mynd gyda'r preswylwyr i apwyntiadau meddygol.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi'n ddiogel. Gwnaethom edrych ar y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth, sydd wedi'u cofnodi a'u llofnodi'n briodol. Mae tymheredd yr ystafelloedd a'r oergelloedd yn briodol ac yn cael ei fonitro. Mae'r polisi meddyginiaeth yn gyfredol ac yn hawdd i'r staff gofal gael gafael arno. Mae'r staff gofal yn cael eu hyfforddi'n unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ac maent yn gymwys wrth roi meddyginiaeth. Mae'r tîm rheoli yn monitro'r broses ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn effeithiol ac yn cymryd camau priodol i gefnogi'r staff gofal pan fo angen.

## Yr Amgylchedd

Mae amgylchedd y cartref gofal yn groesawgar ac yn gyfforddus. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn amgylchedd sydd â chyfleusterau a chyfarpar i gefnogi canlyniadau personol y bobl. Mae amrywiaeth o gyfarpar ar gael yn y cartref i ddiwallu anghenion y bobl, gan gynnwys cadeiriau, gwelyau a theclynnau codi arbenigol a gaiff eu gwasanaethu'n rheolaidd. Gwelsom gyfarpar sy'n addas i bobl â dementia yn y cartref, arwyddion dwyieithog clir, a drysau lliw gwahanol ar yr ystafelloedd gwely. Caiff gweithiwr cynnal a chadw rhan-amser ei gyflogi yn y cartref i ymdrin ag unrhyw faterion cynnal a chadw. Mae'r darparwr wedi buddsoddi er mwyn adnewyddu sawl rhan o'r cartref i wella llesiant y bobl. Mae'r gwaith adnewyddu hwn yn cynnwys lloriau a charpedi newydd ym mhob rhan o'r cartref, lifft newydd, system dŵr, system clychau galw, yn ogystal â gosod dyfeisiau diogelwch ychwanegol ar y ffenestri.

Mae trefniadau rheoli heintiau ar waith i sicrhau y caiff gwastraff clinigol ei waredu'n rheolaidd ac yn ddiogel a chaiff cofnod glanhau dyddiol ei gwblhau a'i lofnodi gan y staff. Mae cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn y cartref, gan gynnwys gorsafoedd diheintio. Mae'r gwiriadau iechyd a diogelwch yn gyfredol. Caiff y larymau tân eu profi bob wythnos. Mae gan cartref gofal The Nash sgôr hylendid bwyd o bedwar allan o bump, sef 'da'.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae strwythur rheoli cymharol newydd wedi'i gyflwyno yn y gwasanaeth. Mae'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gwasanaeth hwn, sydd o ganlyniad yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi gan y tîm rheoli cyfan. Mae pob aelod o'r staff yn canmol yr unigolyn cyfrifol gan ei ddisgrifio fel unigolyn sy'n hawdd mynd ato. Mae'r staff yn hapus yn gweithio yn y gwasanaeth, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol ac yn cael cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd pan fo angen. Yn ôl y matrices hyfforddiant, mae hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant ychwanegol arall y staff yn gyfredol.

Gwelsom fod nifer digonol o staff ar gael ymhob rhan o'r cartref yn ystod yr arolygiad. Caiff cyfarfodydd staff rheolaidd eu cynnal rhwng y staff gofal a'r tîm rheoli; caiff y staff gyfleoedd i drafod unrhyw faterion â'r tîm rheoli. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo bod y tîm rheoli yn gwrandao arnynt yn ystod y cyfarfodydd hyn, a'i fod yn gweithredu mewn ffordd gefnogol. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwyllo un i un gyda'r tîm rheoli hefyd, gan ddisgrifio'r sesiynau hyn fel sesiynau sy'n ddefnyddiol i drafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder mewn modd cyfrinachol. Caiff gwiriadau priodol eu cynnal i wneud yn siŵr bod y staff yn addas. Caiff matrices y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ei ddiweddarau o fewn y terfyn amser gofynnol ac mae system ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd.

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

| Statws              | Ystyr pob un  |
|---------------------|---|
| <b>Newydd</b>       | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.   |
| <b>Adolygwyd</b>    | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| <b>Heb Gyflawni</b> | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.  |
| <b>Cyflawnwyd</b>   | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.  |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

| Rheoliad | Crynodeb   | Statws     |
|----------|--|------------|
| Dd/G     | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn  | Dd/G       |
| 36       | Nid yw'r staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf yn rheolaidd. Nid yw'r mwyafrif o'r staff wedi cael eu harfarniad blynyddol. | Cyflawnwyd |
| 35       | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y cesglir geirdaon ar gyfer staff cyn iddynt ddechrau eu cyflogaeth. Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod gwiriadau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol.              | Cyflawnwyd |



|    |   |            |
|----|---|------------|
| 58 | Mae angen gwella systemau a phrosesau ar gyfer rhoi a chofnodi meddyginiaeth gan nad yw'r staff yn dilyn y canllawiau arfer gorau cenedlaethol cyfredol.  | Cyflawnwyd |
| 57 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn nodi risgiau i iechyd a diogelwch y bobl ac nid yw'n rhoi mesurau effeithiol ar waith i leihau risgiau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.   | Cyflawnwyd |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn nodi'r camau i'w cymryd i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd i lesiant y bobl.   | Cyflawnwyd |
| 14 | Ni chaiff asesiadau cyn derbyn eu cwblhau ar gyfer pob preswlydd cyn iddo gael ei dderbyn i'r cartref. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff asesiadau cyn derbyn eu cwblhau cyn i bobl gael eu derbyn i'r cartref gofal er mwyn sicrhau y gall y cartref ddiwallu eu hanghenion yn ddiogel. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella |  |            |
|-----------------------------------|--|------------|
| Rheoliad                          | Crynodeb   | Statws     |
| Dd/G                              | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn  | Dd/G       |
| 73                                | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r cartref bob tri mis o leiaf. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis o leiaf, cyfarfod â'r staff a chofnodi tystiolaeth o'r ymweliad a thrafodaethau yn yr adroddiad. | Cyflawnwyd |
| 80                                | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi gwneud darpariaeth i ansawdd y gofal a'r cymorth gael ei adolygu o leiaf bob chwe mis.   | Cyflawnwyd |



## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 08/11/2023**